"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Mai, 2024**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 8.00 p.m. hyd 9.00 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Efan Thomas,
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

## 9. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cynghorydd Siôn Williams am ei waith arbennig fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn aeth heibio a'r modd y bu iddo lywio'r gweithgareddau.

## 10. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 11. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed EBRILL, 2024

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 8fed Ebrill, 2024.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 127(b) Cae Capel, Botwnnog – Cais Cynllunio C24/0205/32/LL**

**Cyflwynwyd** llythyr Sian Parry ynglyn a'r cais uchod (copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).

**Penderfynwyd** gwahodd Swyddog o'r Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd ac o Adra i gyfarfod cyhoeddus i drafod y cais yn ei gyfanrwydd – hyn cyn i'r cais gael ei benderfynu arno gan Cyngor Gwynedd.

(b) **Eitem 134 – Blodau i'r tybiau**

**Derbyniwyd** pris o £40 y gasgen o Dyddyn Sachau.

**Penderfynwyd** symmud ymlaen i roi archeb am flodau i'r pump casgen.

## 12. CAIS CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** cais cynllunio rhif C24/0264/32.DT – estyniad deulawr i gefn ac ochr Ty'r Onnen, Bryncroes.

**Penderfynwyd** ei gefnogi.

## 13. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd**

(a) Anfon y materion a ganlyn i sylw'r Adran Ffyrdd:
Dwr yn llifo ar wyneb y ffordd o Brookside i lawr am Siop y Bont, Llangwnnadl.
Angen barbio Lon Llety, Bryncroes a Lon Ty Fair Bryncroes gan eu bod wedi cau.
Angen difa'r planhigyn 'Japanese Knotweed' sy'n tyfu ger Llety, Bryncroes, wrth y bont ym Mryncroes a'r triongl yn Sarn.

(b) Gofyn i'r Swyddog Llwybrau roi sylw i'r llwybr sydd yn dod allan ger Argraig, Sarn.

14. **CEIR TRYDAN**

**Cyflwynwyd**

(a) Llythyr gan Glarc Cyngor Tref Nefyn (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).
(b) Ymateb Arweinydd Cyngor Gwynedd i lythyr Cyngor Tref Nefyn (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).
(c) E-bost gan Dafydd Rhys ynglyn a Chlwb car trydan Pen Llyn.

**Penderfynwyd**

**(1)** Cefnogi Cyngor Tref Nefyn am gefnogaeth i ofyn cwestiynau i Gyngor Gwynedd ar pa sail maent yn cyfiawnhau archebu 67 o geir trydan dros gyfnod o ddwy flynedd.
**(2)** Ymateb i Arweinydd Cyngor Gwynedd gan ofyn y cwestiynau a ganlyn:

1. Sawl car trydan sydd gan gynghorwyr Cyngor Gwynedd wedi eu prynu gyda eu harian eu hunain?
2. Beth yw canran y staff cyfredol sydd yn berchen ar geir trydan?
3. Buasai yn llawer iawn gwell gwario miliwn o bunnau ar addysg, iechyd a gofal a trwsio'r ffyrdd yng Ngwynedd.
4. Nid yw ceir trydan mor wyrdd a hynny pan yn ystyried y nwyddau sydd eu hangen i'w hadeiladu, y difrod amgylcheddol a wneir wrth chwarelu am y nwyddau, ecsbloetio plant bach mewn gwledydd yn Affrica a De America.
5. Mae tri chwarter y trydan sydd yn cael ei gynhyrchu yn y DU yn cael ei greu trwy losgi tanwydd ffosil neu ynni niwclear.

**Penderfynwyd ymhellach** gefnogi cais gan Dafydd Rhys ynglyn a Chlwb car trydan Pen Llyn.

15. **CORFF GWARCHOD NEWYDD Y GIG**

**Rhoddwyd** gwybodaeth am gyflwyniad a wnaed gan Un Llais Cymru, corff gwarchod newydd y GIG, i Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor ar 24ain Ebrill, 2024. 'Roedd gwybodaeth am y linc ar gael gan y Clarc ar gais.

16. **CYNLLUN ADFYWIO LLEOL**

**Nodwyd** fod cyfarfod pellach er creu Cynlluniau Amddiffyn Lleol 'Ardal Ni' i'w gynnal yn Neuadd Abersoch, dydd Mawrth, 4ydd Mehefin, 2024 am 5.00 y.h.
Dywedodd y Cynghorwyr Glyn Roberts a Michael Strain y byddant yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.